

Cwrs Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Lefel 2)

Prawf Sampl o Asesiad Ar-Sgrîn

Fersiwn 1.0 (Rhagfyr 2020)



Dalier sylw:

Copi papur o brawf ar-sgrîn yn unig yw hwn, felly gyda rhai o'r cwestiynau bydd elfennau rhyngweithiol na ellir eu hailadrodd yn y fformat hwn (clicio ar luniau i ddewis yr ardal gywir ac opsiynau llusgo i'r drefn gywir).

Cyfarwyddiadau:

Mae 45 o gwestiynau yn y papur hwn.

Mae pob cwestiwn yn werth un marc.





Mae gennych 70 munud i orffen y papur.

Os na ddywedir yn wahanol, rhaid i chi ddewis **un opsiwn** ar gyfer pob cwestiwn.

1. Pa un o'r rhain sydd wedi'i ddylunio i gynnwys llofft yn yr atig?
 - a. Byngalo dormer.
 - b. Tŷ teras.
 - c. Rhandy.
 - d. Cartref symudol statig.

2. Pa un o'r rhain ddylid ei gynnwys mewn adeilad cyhoeddus i ateb gofynion diwylliannol?
 - a. Llyfrgell.
 - b. Ystafell gerdd.
 - c. Ystafell weddio.
 - d. Oriel.

3. Mae rhan o ganol dinas yn cael ei addasu i geisio adfywio'r ardal siopa. Beth ddylid ei wneud i hybu hyn?
 - a. Dylunio llwybrau parcio a theithio.
 - b. Mwy o ardaloedd talu ac arddangos.
 - c. Datblygu parciau siopa.
 - d. Cyflwyno tâl atal tagfeydd.

4. Pa un o'r rhain sy'n bont grog?
 - a. 
 - b. 
 - c. 
 - d. 

5. Pa fasnach grefft fyddai'n **fwyaf tebygol** o weithio gyda cherrig nadd?
 - a. Gwaith to.
 - b. Gwaith trywel.
 - c. Plastro.
 - d. Gwaith coed.

6. Pam ddylid defnyddio plastrau calch i ailwampio eiddo o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg?
 - a. I wella'r sgôr tystysgrif tân.
 - b. I foderneiddio'r adeilad.
 - c. I wella'r perfformiad thermol.
 - d. I ddiogelu treftadaeth yr adeilad.

7. Pa **ddau ddarn** o gyfarpar ddylid eu defnyddio i osod sylfeini ar gyfer adeilad newydd?
 - a. Staff.
 - b. Sganer.
 - c. Sgwaryn.
 - d. Plymen.
 - e. Lefel optegol.

8. Pam fyddai sylfaen rafft yn cael ei defnyddio yn y broses adeiladu?
 - a. I atal lleithder rhag codi.
 - b. I leihau dirgrynu tanddaearol.
 - c. I atal tir meddal rhag suddo.
 - d. I atal dŵr codi mewn gorlifdir.

9. Pa un o'r rhain sy'n un o amcanion cadwraeth bioamrywiaeth?
 - a. Cynnal systemau cynnal bywyd.
 - b. Arbed dŵr.
 - c. Gwneud y mwyaf o ofod adeilad.
 - d. Defnyddio llai o ynni.

10. Beth yw pwrpas darlun isometrig?
 - a. I ddangos sut i gydosod cydrannau.
 - b. I weld gwrthrych o dair ochr.
 - c. I weld chwe ongl ar y tro.
 - d. I ddangos lleoliad safle mewn perthynas â'i amgylchoedd.

11. Beth yw prif bwrpas yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yng nghyd-destun difrod amgylcheddol?
- Er mwyn asesu lefel y llygredd a achosir i'r amgylchedd.
 - I arolygu'r math o lygredd gwastraff ydyw.
 - I dalu am ailgylchu deunyddiau gwastraff.
 - I dalu am y niwed a achosir i'r amgylchedd.
12. Yng Nghymru pam fod yn rhaid rhestru rhai adeiladau?
- Er mwyn diogelu eu treftadaeth.
 - Er mwyn cadw sgiliau traddodiadol.
 - I atal costau tai rhag cynyddu.
 - I gynyddu referniw o dwristiaeth.
13. Llusgwch o'r golofn chwith a gollwng yn y golofn dde i gwblhau'r cwestiwn.
Cwblhewch y dilyniant o weithgareddau ar gyfer adeiladu tŷ waliau ceudod brics/ blocs yn gywir.
- | | |
|----------------------------|----------------------|
| Plastro'r tu mewn. | A. |
| Llechi ar y to. | B. Bricio'r walbant. |
| Is-strwythur y DPC. | C. |
| | D. Leinins drysau. |
| | E. |
14. Pa ddull marchnata **fyddai orau** ar gyfer busnes masnach grefft bach i hybu ei wasanaethau?
- Hysbyseb genedlaethol ar y teledu.
 - Hysbyseb mewn papur lleol.
 - Cylchgrawn masnach rhyngwladol.
 - Dylanwadwr ar y cyfryngau cymdeithasol.
15. Pa fantais yw cael rhaglen reolaidd o gynnal a chadw?
- Cyfarpar yn torri lawr yn llai aml.
 - Lleihau'r amser cyn bod angen deunyddiau newydd.
 - Cynyddu faint o ddeunyddiau stoc sydd ei angen.
 - Ymestyn bywyd defnyddiol y cyfarpar.

16. Pa un o'r rhain fyddai angen awdurdod i ganiatáu newid defnydd?
- Rhoi rendr newydd ar adeilad.
 - Rhannu tŷ'n nifer o fflatiau.
 - Dymchwel wal i greu ardal cynllun agored.
 - Gosod linteli newydd uwchben drysau.
17. Pam fod angen caniatâd cynllunio cyn dymchwel adeilad mewn ardal breswyl?
- I adnabod risgiau diogelwch posib.
 - I atal camau cyfreithiol yn y dyfodol.
 - I atal halogi'r tir.
 - Er mwyn didol a gwahanu gwastraff.
18. Pa un o'r dulliau dymchwel hyn sydd **orau** er mwyn gallu ailgylchu deunyddiau?
- Defnyddio ffrwydron.
 - Defnyddio peiriant tyllu.
 - Stripio gyda llaw.
 - Gyda chraen a phelen.
19. Pa un o'r rhain a ddefnyddir i gofnodi incwm a gwariant mewn busnes?
- Derbyniad.
 - Anfoneb.
 - Llyfr lejar.
 - Tendr.
20. Pa un o'r rhain sydd **fwyaf tebygol** o achosi gwaith gwael?
- Defnyddio offer anaddas.
 - Defnyddio deunyddiau traddodiadol.
 - Defnyddio gweithwyr aml-sgiliau.
 - Defnyddio cyfarpar diogelwch anaddas.
21. Beth y mae Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP) yn ei wneud?
- Gadael i gyflogwyr osod safonau.
 - Rhoi arweiniad ar dechnoleg newydd.
 - Rhoi mwy o warchodaeth i waith adeiladu newydd.
 - Rhoi cyngor ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith.

22. Pa un o'r rhain sy'n un o bwerau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch?

- a. Defnyddio isgcontractwyr i wneud archwiliadau diogelwch.
- b. Arestio gweithwyr safle am dorri rheoliadau.
- c. Mynnu bod cyfarpar peryglus yn cael ei atafaelu.
- d. Gwirio cofnodion treth gweithwyr.

23. Pa un o'r gweithgareddau hyn allai achosi dermatitis wrth weithio ar safle?

- a. Gosod draeniau.
- b. Gweithio gyda phlastr.
- c. Gosod pibellau.
- d. Creu agoriad ffenestr.

24. Pa un o'r damweiniau hyn **na ddylid** ei hadrodd o dan RIDDOR?

- a. Difrod organau mewnol.
- b. Bod yn anymwybodol.
- c. Torri esgyrn bysedd y traed.
- d. Colli golwg.

25. Pam fod datganiadau dull yn cael eu paratoi?

- a. I sicrhau gweithdrefn weithio ddiogel.
- b. I gofnodi damweiniau posib.
- c. I adnabod peryglon yn y gweithle.
- d. I adnabod damweiniau bron â digwydd.

26. Llusgwch o'r golofn chwith a gollwng yn y golofn dde i gwblhau'r cwestiwn.

Mae tân wedi digwydd yn y gweithle. Cwblhewch y dilyniant o weithgareddau ar gyfer gwagu'r gweithle'n ddiogel.

Cofrestru'r holl staff.

a. Canu'r larwm.

Gwagu'r adeilad.

b.

Mynd i'r man ymgynnull agosaf.

c.

d.....

e. Aros am hysbysiad i ddychwelyd i weithio.

27. Llusgwch y label cywir i adnabod **pob un** o'r arwyddion.

a)



b)



Rhybudd.

Gwybodaeth.

Gorfodol.

Cyfarwyddyd.

Gwahardd.

28. Pam fod profion PAT o offer pŵer yn ymarfer da?

- a. I adnabod ffynhonnell bŵer ddiogel.
- b. I sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.
- c. I gyfrifo amser cyswllt (ag offeryn pŵer)
- d. I ymestyn y garantî.

29. Beth **sy'n rhaid** ei sicrhau i ddiogelu cerddwyr rhag peiriannau sy'n symud ar safle?

- a. Arwyddion rhybuddio clir.
- b. Pob gweithiwr i wisgo siaced lachar.
- c. Llwybrau mynediad ar wahân.
- d. Gwaith codi mecanyddol ond yn digwydd wedi nos.

30. Pam fyddai trwydded weithio'n cael ei rhoi wrth drefnu gwaith adeiladu?

- a. I benderfynu lefel y risg.
- b. I adnabod peryglon yn y gweithle.
- c. I awdurdodi gweithgareddau risg uchel.
- d. I gynnal a chadw peiriannau.

31. Beth yw'r rheswm **pwysicaf** dros ddiol a gwahanu gwastraff yn y gweithle?

- a. I adnabod deunydd i'w ailgylchu.
- b. I sefydlu'r gost o waredu deunyddiau.
- c. I adnabod deunyddiau ar gyfer gweithgynhyrchu.
- d. I gofnodi faint o ddeunydd sy'n cael ei waredu.

32. Pa **ddau ddull** sydd **orau** i leihau faint o lwch sy'n cael ei wasgaru ar safle adeiladu?

- a. Treis tywallt damweiniol.
- b. Llosgi.
- c. Sgrinio.
- d. Gwlychu'r wyneb.
- e. Llenni dirgrynu.

33. Llusgwch o'r golofn chwith a gollwng yn y golofn dde i gwblhau'r cwestiwn.

Cwblhewch y dilyniant i ddangos y cylch bywyd BIM yn ystod y broses adeiladu.

Rhaglennu.

a.

Cynnal a chadw.

b. Dylunio.

Cynllunio.

c.

d. Adeiladu.

e.

34. Beth yw un o fanteision defnyddio concriid hunan-drwsio i godi adeiladau newydd?

- a. Bydd yn rheoli anwedd.
- b. Nid oes angen ei addurno.
- c. Costau cynnal a chadw is.
- d. Yn gwella cynhyrchedd.

35. Pam y defnyddir technolegau ymgolli yn y diwydiant adeiladu?

- a. I ddangos efelychiad prawf cysyniad ar gyfer strwythur.
- b. Er mwyn gallu codi adeilad o leoliad pell i ffwrdd.
- c. I wella morâl staff drwy weithgareddau rhyngweithiol.
- d. I rith-addasu'r darluniau mewn amser real.

36. Pa un o'r systemau hyn sy'n gysylltiedig â phodiau ystafell ymolchi a adeiladir oddi ar y safle?

- a. System baneli.
- b. System gyfeintiol.
- c. System hybrid.
- d. Tywallt concriid yn y fan a'r lle.

37. Pa un o'r rhain sy'n fantais cynhyrchu adeiladau gyda thechnegau adeiladu oddi ar y safle?
- Bydd y cydrannau i gyd yn cael eu cynhyrchu gan wahanol gwmnïau.
 - Nid yw'r hinsawdd yn cael unrhyw effaith ar y gwaith cynhyrchu.
 - Gellir newid y dyluniad yn hawdd yn ystod y gwaith adeiladu.
 - Mae'r cydrannau i gyd wedi eu canfod yn lleol.
38. Pa un o'r rhain yw'r term yn y broses BIM sy'n disgrifio un ffynhonnell wybodaeth ar gyfer prosiect neilltuol?
- Modelu Gwybodaeth Prosiect (PIM).
 - Amgylchedd Data Cyffredin (CDE).
 - Modelu Gwybodaeth Asedau (AIM).
 - Gofynion Gwybodaeth y Cyflogwr (EIR).
39. Gyda pha **ddau** o'r gweithgareddau adeiladu isod y dylid cyfrifo eu deunyddiau ar sail arwynebedd?
- Gosod plasterbord ar ddistiau nenfwd.
 - Gosod pibellau ar gyfer ystafell ymolchi.
 - Gosod blocs i adeiladu wal.
 - Gosod concriid ar gyfer llawr.
 - Gosod cêbl trydan ar gyfer ffics cyntaf.
40. Pa un o'r isod sy'n fantais o ddefnyddio deunyddiau ailgylchadwy traddodiadol i wneud gwaith adfer mewn ardal gadwraeth?
- Maen nhw'n rhad i'w prynu.
 - Mae angen llai o storio ar y safle.
 - Nid oes llawer o'r cynnyrch ar gael.
 - Maen nhw'n gweddu i ddyluniad y cyfnod.
41. Sut y dylid ateb anghenion gofal cwsmer yn ystod y gwahanol gamau o brosiect adeiladu mewn ardal breswyl?
- Drwy wneud penderfyniadau penodol i'r cleient.
 - Drwy ymgynghori'n barhaus yn ystod y gwaith adeiladu.
 - Drwy roi un diweddariad ar ddiwedd y prosiect.
 - Drwy ddiweddarau'r cleient sawl gwaith y dydd.

42. Llusgwch o'r golofn chwith a gollwng yn y golofn dde i gwblhau'r cwestiwn.

Cwblhewch y dilyniant i ddangos y drefn gywir o reoli risg yn y gweithle.

Sgorio difrifoldeb y risg.

a.

Cynllunio'r rhaglen waith.

b.

Adnabod peryglon posib.

c. Adnabod pwy sy'n wynebu'r risg.

d.

e. Mesurau rheoli mewnbwn.

43. Pa **ddwy** o'r masnachau crefft hyn fyddai eu hangen i osod deunyddiau a chydrannau cynnal llwyth adeilad fel rhan o'r gwaith?

- a. Gweithiwr to.
- b. Plastrwr.
- c. Briciwr.
- d. Saer pensaernïol.
- e. Peintiwr ac addurnwr.

44. Ceisiwch adnabod braced y grib yn y llun isod.



45. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio adeilad rhestredig?

- a. Adeilad gyda waliau ceudod.
- b. Adeilad dros gant oed.
- c. Adeilad gyda waliau solid.
- d. Adeilad o bwysigrwydd i'r gymuned.